

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos lau, Rhagfyr 7fed, 2017 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Marian Evans (Cadeirydd); William Ifor Hughes; Trefor Wyn Jones; Anwen Jones; Thomas Prys Jones; Angela Williams; Ceri Jones; Tegid Jones; Sian Angharad Parry; Aled Lloyd Evans; Naomi Jones; Aled Davies a'r Clerc.

1. Ymweliad Mr Ifan Llewelyn Jones, Swyddog Datblygu Iaith, *hunaniaith*, Cyngor Gwynedd. Croesawyd Mr Jones i'r cyfarfod a gwnaeth ei gyflwyniad. Dwy brif neges oedd ganddo sef y gallai ef a'i gydweithwyr gynnig anogaeth a chefnogaeth i fudiadau lleol i weithredu yn Gymraeg, cymorth a chymorth ariannol; ei ail bwynt oedd y gallai hunaniaith gynorthwyo drwy gyfieithu mewn cyfarfodydd cyhoeddus a thrwy hynny arbed costau yn sylweddol. Cafwyd cyfle i ofyn ac ateb cwestiynau a diolchwyd i Mr Jones am ei gyflwyniad.
2. Ymddiheuriadau. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Margaret Griffith (Is gadeirydd) a Sion Aled Jones.
3. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Dachwedd 2il, 2017.
4. Arwyddwyd cadarnhad taliadau BACS gan y Cadeirydd.
5. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
6. Datgan buddiant personol. Hysbysodd y Cynghorydd Aled Lloyd Evans o fuddiant personol yn rhif 9 ar y rhaglen waith, llythyr oddi wrth Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru, mae'n berchennog rhan fechan o'r Lôn Goed ac roedd cais gan Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru i greu rhwydwaith o lwybrau ceffylau yn y gymuned, o bosib yn cynnwys y Lôn Goed. Hysbysodd y Cynghorydd Marian Evans o fuddiant personol yn rhif 15 ar y rhaglen waith sef cysylltiad band eang i Neuadd Llanystumdwy achos mae'n wraig i Gadeirydd Pwyllgor y Neuadd. Hysbysodd y Cynghorydd Naomi Jones o fuddiant personol yn rhif 15 ar y rhaglen waith sef cysylltiad band eang i Neuadd Llanystumdwy achos mae'n aelod o Bwyllgor Neuadd Llanystumdwy. Hysbysodd y Cynghorwyr William Ifor Hughes ac Aled Davies o fuddiant personol yn rhif 15 ar y rhaglen waith sef cysylltiad band eang i Ffestri Capel Pencaenewydd, y Cynghorydd Hughes oherwydd ei fod yn flaenor ac yn aelod yng nghapel Pencaenewydd, y Cynghorydd Davies oherwydd mai ef ydi gweinidog y capel.
7. Cyngor Gwynedd.
 1. Ymgynghoriad Gwasanaeth Ieuenctid i'r Dyfodol. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Thomas Prys Jones ddrafftio llythyr, ac i'r Cynghorwyr eraill gysylltu os am wneud pwyntiau penodol. Yna y Cynghorydd Jones i anfon y drafft o lythyr ymlaen i'r Clerc iddo yntau gael ei anfon ymlaen i'r Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant, Cyngor Gwynedd. Yn ddiweddarach gofynnodd y Cynghorydd Thomas Prys Jones i gopi o'r llythyr gael ei anfon at y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd.
 2. Safle Bws Llanystumdwy. Roedd y Clerc wedi cael cyfarfod ar y safle gyda swyddog o Gyngor Gwynedd. Byddai cael lloches bws yr ochr arall i'r ffordd i'r un presennol yn ddrud iawn, oddeutu £6,000- rhwng popeth. Un syniad oedd symud y safle bws am Bwllheli i gyferbyn â'r lloches bws am Gricieth. Penderfynwyd gofyn am bris i Mr D E Williams, Lithfaen, am ail leoli'r lloches bws am Bwllheli i gyferbyn â'r safle bws/lloches bws am Gricieth. Mae Cyngor Gwynedd wedi llunio cynllun ond bydd rhaid i'r Cyngor yma dalu am y gwaith.

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd:

3. Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd, Lôn Gefn, Llanystumdwy. Penderfynwyd derbyn yr ateb mai ffos wedi tagu yn y cae yng nghefn y clawdd terfyn oedd achos y gorlifiad. Mae'r ffos yma yn dilyn o dan y briffordd mewn pibell, gyda'r gwter wedi'i hadeiladu ar rediad y bibell.

8. Cyngor Gwynedd.

Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned. Trafodwyd y canlynol a phenderfynwyd fel a ganlyn:

1. Cais rhif: C17/1074/41/LL – Estyniad unllawr cefn; Hidiart Lydan, Chwilog. Cefnogi.
2. Cais rhif: C17/1075/41/LL – Addasiadau mewnol ac allanol i drosi adeilad yn uned gwyliau; Penarth Fawr, Chwilog. Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais yma.
3. Cais rhif: C17/1076/41 – Trosi adeilad yn uned gwyliau; Penarth Fawr, Chwilog. Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais yma.
4. Cais rhif: C17/1084/41/LL – Dymchwel estyniad cefn presennol a chodi estyniad deulawr cefn newydd, ail doi, addasiadau i ffenestri gromen a newidiadau i orffeniad allanol yr eiddo; Ty'n Rhos Penarth, Chwilog. Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais yma.
5. Cais rhif: C17/1097/41/LL – Ail-gyflwyniad o gais a wrthodwyd o dan C17/0062/41/LL ar gyfer codi adeilad amaethyddol; Llwyn Gwyn, Llanguybi. Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais yma.

9. Llythyr oddi wrth Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru. Roedd y llythyr yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor i greu rhwydwaith o lwybrau i wella cyfleusterau ar gefn ceffyl, ar gefn beic, ar droed ac mewn cadair olwyn. Penderfynwyd, ar ôl trafodaeth, anfon yn ôl atynt i ofyn am fwy o wybodaeth am yr hyn maent ei eisiau gan y Cyngor yma. Roedd eu llythyr yn uniaith Saesneg a gofynnwyd i'r Clerc anfon ateb dwyieithog atynt. Ni chymerodd y Cynghorydd Aled Lloyd Evans ran yn y drafodaeth.

10. Gohebiaeth oddi wrth Cadw ynghylch Cromlech Beudy Gromlech, Rhoslan. Er bod y gromlech yn rhestredig (wedi'i diogelu) nid Cadw sydd yn gofalu amdani. Cyfrifoldeb y perchennog tir a'r Cyngor lleol (Cyngor Gwynedd) yw'r arwydd a'r mynediad.

Penderfynwyd cysylltu gydag Adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cyngor Gwynedd.

11. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy – 1. Llifogydd yn effeithio ar y rhes tai ym Mhenygroes, Llanystumdwy. Yn dilyn y glaw trwm diweddar roedd nifer o'r tai yma dan ddŵr a bu rhaid i'r trigolion symud allan o'r tai i fyw gyda'u teuluoedd oherwydd maint y difrod. Penderfynwyd ysgrifennu at Adran Priffyrdd y Cyngor Sir i dynnu eu sylw a gofyn iddynt anfon yr ohebiaeth ymlaen at adrannau eraill perthnasol Cyngor Gwynedd.

*Trwy ganiatâd y Cadeirydd: 2. Coeden wedi syrthio ar draws yr afon yn Llanystumdwy ac yn amharu ar rediad y dŵr dan y bont. Penderfynwyd cysylltu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a dweud y gallai'r goeden, yn dilyn glaw trwm, amharu ar rediad y dŵr allai achosi i'r afon orlifo ochr yr Eglwys.

Rhoslan /Ynys

Chwilog – dau fater gan y Cynghorydd Aled Lloyd Evans yn cynnwys llythyr oddi wrth drethdalwyr ynghylch cyflymder traffig yn Chwilog. Roedd y llythyr, wedi'i arwyddo gan drigolion y tai ar y ffordd i mewn i bentref Chwilog o ochr Y Ffôr yn tynnu sylw at y peryg o geir yn gor yrru i mewn i'r pentref yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor i'w pryder. Penderfynwyd cefnogi eu cais ac anfon eu llythyr a llythyr o gefnogaeth i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd. Yn yr un modd penderfynwyd anfon cwyn at Priffyrdd Dwyfor yn gofyn am symud yr arwydd 30 a/neu gael arwydd 40 ar y ffordd heibio Bryn Tirion am Garej Pandy yn dilyn damwain ddiweddar ar y ffordd honno.

Pencaenewydd/Sardis

Llangybi – Materion gan y Cyngorydd Thomas Prys Jones yn cynnwys llinellau melyn diweddar ger Canolfan Feddygol Cricieth yn peri anhwylystod i gleifion. Penderfynwyd anfon at Gyngor Tref Cricieth i ofyn am eu sylwadau.

Mater arall oedd bod braich arwydd ffordd ar bont Melin Plas Du bron â disgyn i ffordd. Penderfynwyd tynnu sylw Priffyrdd Dwyfor at hyn.

Materion Ariannol

12. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Rhoddwyd adroddiad ariannol lawn o'r union arian sydd yng nghoffrau'r Cyngor. Gwneir cais am ad daliad yr arian llwybrau gan Gyngor Gwynedd cyn diwedd y mis hwn. Nid oes unrhyw berygl i'r Cyngor yma fynd i ddyled.

13. Penodi archwiliwr mewnol i wneud archwiliad ariannol ar gyllid y Cyngor am y flwyddyn yn diwedd Mawrth 31ain, 2018. Mae'r Clerc wedi cael sgwrs anffurfiol gyda Rheolwr Archwilio, Uned Archwilio Mewnol, Cyllid Cyngor Gwynedd. Penderfynwyd anfon i ofyn i'r Adran yma wneud yr archwiliad ariannol mewnol ar gyllid y Cyngor am y flwyddyn yn diwedd Mawrth 31ain, 2018.

14. Gohebiaeth oddi wrth Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol ynghylch Swm Priodol o dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, Gwariant Adran 137: y Terfyn ar gyfer 2018-19. Penderfynwyd derbyn mai £7.86c am bob etholwr fydd y swm; £7.57c yw'r swm ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

15. Gohebiaeth ynghylch cysylltiad band eang i Neuadd Goffa Chwilog, Neuadd Llanystumdwy a Festri Capel Pencaenewydd yn cynnwys prisiau am gysylltiad i Neuadd Goffa Chwilog, *trwy ganiatâd y Cadeirydd: Neuadd Llanystumdwy a Festri Capel Pencaenewydd. Roedd y tair canolfan yn ddiolchgar iawn am gynnig y Cyngor ac wedi cael prisiau cyfredol fel a ganlyn:

Neuadd Goffa Chwilog Penderfynwyd derbyn y prisiau sef:

Cwmni B T cysylltiad ffôn i'r Neuadd = £125-

£27- am yr hub/danfon

a £21.20c + TAW yn rhent misol.

Festri Pencaenewydd. Penderfynwyd derbyn y prisiau sef:

Cwmni BT fibre to the premises,

dim llinell ffôn, £9.99c am anfon yr hub a thaliad misol o £39.99c yn cynnwys TAW (unlimited).

Ni chymerodd y Cyngorwyr William Ifor Hughes ac Aled Davies ran yn y drafodaeth.

Neuadd Llanystumdwy. Penderfynwyd derbyn y prisiau sef:

Cwmni Talk Talk, dim cost rhoi llinell ffôn yn y Neuadd,

Cynllun blwyddyn o froadband diddiwedd (unlimited) am £22.95c + TAW y mis a ffi o £8.99c am yrru'r router drwy'r post.

Ni chymerodd y Cyngorwyr Marian Evans a Naomi Jones ran yn y drafodaeth.

Penderfynwyd yn awr y gallai'r canolfannau fwrw ymlaen i dderbyn y cynigion a gawsant, mai nhw fydd yn talu am y gwasanaeth ac yna ym mis Chwefror yn anfon anfoneb i'r Cyngor am eu gwariant. Byddant yn gwneud hyn yn flynyddol ym mis Chwefror tra bydd y Cyngor yn ariannu'r gwasanaeth.

16. Trafod prisiau am dorri a chlirio ar dir y Cyngor gyferbyn â rhes Maenywern, Llanystumdwy. Roedd tri pris wedi dod i law a phenderfynwyd derbyn pris Trefn o £150- am wneud y gwaith.

17. Anfoneb angen ei dalu:

a. Trefn am dorri gwellt a'i waredu, cae chwarae Troed y Garn, Llanybi, 3 toriad x £70- = £210- a chlirio coeden oddi ar Lwybr Clawdd Llanw, Bontfechan, £70- cyfanswm £280-, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

18. Yn disgwyl ymateb oddi wrth Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd yn dilyn cyfarfod safle gydag ef, y Cyngorydd Thomas Prys Jones a'r Clerc ar lwybrau Pont Merchaid a Garn Bentyrch. *Trwy ganiatâd y Cadeirydd: yr ymateb wedi dod. Penderfynwyd derbyn yr ymateb ei fod yn dal i geisio canfod pwy yw perchennog y goedlan; ei fod wedi cysylltu gyda'r ysgol i ofyn iddynt dynnu'r clo ar y giat fochyn ger buarth yr ysgol a'i fod wedi trafod gyda pherchennog y tir parthed y gangen lwybr o Bont Merchaid i Droed y Garn.

Ar ddiwedd cyfarfod y Cyngor bu cyfarfod o gynghorwyr Ward Llanystumdwy i drafod cais am gyfraniad o Elusen William Ellis.

It is possible to get an English translation of any minute; contact the Clerk.